## Absenoldebau awdurdodedig

- Cadwch eich plentyn adref o'r ysgol ddim ond os yw'n wirioneddol yn rhy sâl i fod yn bresennol.

## Absenoldebau Anawdurdodedig

- Ddylech chi ddim cadw eich plentyn o'r ysgol na chaniatáu iddo/iddi aros adref:
  ...i fynd i siopa
  ...i ymweld â pherthnasau
  ...ar gyfer pen-blwyddi
  ...am godi'n hwyr
  ...am nad yw am fynd neu am nad ydych yn teimlo fel mynd ag ef/hi

## Gwyliau yn ystod y tymor

- Ceisiwch beidio â chymryd eich plentyn allan o'r ysgol i fynd ar wyliau ble y bo'n bosibl. Mae colli dyddiau o'r ysgol yn golled o ran dysgu hefyd.
  ...mae treulio 10 niwrnod ar wyliau yn golygu bydd presenoldeb eich plentyn ddim ond yn 94%

## BETH YW RHEOLAU PRESENOLDEB?

Rhaid i rieni sicrhau bod eu plant 5-16 oed yn derbyn addysg llawn amser a'u bod yn mynychu'n rheolaidd ac yn aros yn yr ysgol. (Adran 7 Deddf Addysg 1996)

- **Dyma'r GYFRAITH!** Gellir erlyn rhieni am ei thorri. (Adran 444(1) y Ddeddf Addysg Act 1996)

**Beth yw ystyr 80% presenoldeb?**

**Mae presenoldeb o 80% ym mlwyddyn 7,8,9,10 ac 11 yn golygu eich bod wedi colli un flwyddyn gyfan o'r ysgol; 1170 gwers neu 975 awr neu'r nifer enfawr o 58,500 munud!**

**FELLY BETH AM GYDWEITHIO**
**Gallwch siarad â Phennaeth neu Bennaeth Blwyddyn eich plentyn unrhyw bryd**

**Maen nhw am weithio â chi i gael y gorau i'ch plentyn.**

**Rhif cyswllt : ____________________**

**Mae Swyddog Lles Addysg dynodedig gan ysgol eich plentyn sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro presenoldeb y disgyblion**

**Swyddog Lles Addysg eich plentyn yw:-**

______________________________

**Rhif cyswllt : ____________________**



MERTHYR TYDFIL County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL

# Mae Presenoldeb Yn yr ysgol yn Bwysig...

**Pam ddylwn i fynd i'r ysgol?**
Am fy mod i eisiau

... dysgu sgiliau newydd

... cael swydd

... mynychu addysg bellach neu addysg uwch

... canfod rhagor am y byd

... bod yn hapus â'm ffrindiau

... gallu gweithio ag eraill

... datblygu diddordebau newydd



Mae ysgol yn rhoi cyfeillgarwch hir, sgiliau cymdeithasol pwysig, cyfleoedd a phrofiadau.

**Pam yw dod i'r ysgol bob dydd yn bwysig?**

- Os na ddewch i'r ysgol yn rheolaidd:

... ni fyddwch yn gwybod sut i wneud y gwaith

... cewch eich gadael ar ôl

... byddwch yn colli gafael ar fywyd ysgol

... byddwch yn teimlo allan ohoni

... bydd rhaid i chi wneud ffrindiau eto


- Oeddech chi'n gwybod?

... caiff eich ysgol ei barnu yn ôl eich presenoldeb

... caiff eich cynnydd ei effeithio'n ddifrifol os yw'ch presenoldeb yn wael

- bod colli 3 dydd yn ystod hanner tymor yn golygu llai na 91% presenoldeb

**FELLY MAE PRESENOLDEB RHEOLAIDD YN YR YSGOL YN BWYSIG IAWN**



**Fel rhiant, beth allwch wneud i helpu presenoldeb da eich plentyn?**

... rhaid i chi gredu ei fod yn wirioneddol bwysig.
... rhaid i chi fod ag ots am addysg eich plentyn

- Sicrhewch fod eich plentyn:

... yn mynd i'r gwely ar amser rhesymol
... yn dechrau arferion da yn gynnar (cyrraedd ar amser a chadw rheolau'r ysgol)
... yn cadw dyddiadur gwaith cartref a phethau i'w cofio
... yn gwirio'r hyn mae ei angen ar gyfer y diwrnod ysgol nesaf
... yn paratoi dillad ac offer yn barod ar gyfer y diwrnod nesaf
... yn berchen ar ei gloc larwm ei hun

- Os bydd eich plentyn yn absennol

... rhowch wybod cyn gynted â phosibl i'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb
... anfonwch nodyn bob tro i esbonio absenoldeb

Mae'n helpu os yw rhieni yn:

... ymddiddori mewn gwaith ysgol
... gofyn i'r ysgol beth allant wneud i helpu
... canmol ymdrechion eu plant
... dangos nad ydynt yn cymeradwyo presenoldeb gwael, amhrydlondeb neu golli ysgol
... cefnogi'r ysgol o ran annog ymddygiad da

**Beth allwn ei wneud**

Rydyn ni am weithio â chi a'ch plentyn i ddarparu presenoldeb, cyngor, arweiniad a help ymarferol i gael eich plentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Gallwn roi cyngor ac arweiniad ar:-

- Broblemau presenoldeb
- Triwantiaeth
- Prydlondeb
- Bwlio
- Problemau Cymdeithasol ac Emosiynol
- Materion ymddygiad
- Trosglwyddo ysgol
- Gwahardd o'r ysgol
- Cyflogaeth plant
- Addysg amgen
- Eich cyfrifoldebau cyfreithiol
- Cyswllt rhiant/ysgol
- Cael help oddi wrth asiantaethau /sefydliadau eraill

os yw'ch plentyn yn cael problemau yn yr ysgol.

